PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD LLUN, 27 MAWRTH 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Lewis, Lister, Littlechild, Molik a/ac Naughton |

14 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gillian James, Cynghorydd Pwyllgor.

Mynychodd y Cynghorydd Molik, Candice Lloyd o NYAS a Deborah Driffield, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, o bell.

Croesawodd y Cadeirydd Becci Ingram, Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Iechyd Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Deborah Williams, Pennaeth Rhithwir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghaerdydd fel cynghorwyr newydd i'r Pwyllgor.

15 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

16 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 9 Ionawr 2023 a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

17 : YMGYRCH 'FY PETHAU O BWYS' NYAS

Gwahoddodd y Cadeirydd Candice Lloyd, NYAS, i roi cyflwyniad i hysbysu'r Pwyllgor ar ymgyrch 'Mae Fy Mhethau o Bwys' NYAS.

Roedd y cyflwyniad yn rhoi canlyniadau arolygon i Aelodau o bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol i ymdrin ag eiddo plant a phobl ifanc yn ystod symudiadau o un llety i'r llall tra byddant mewn gofal.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd am addewid Mae Fy Mhethau o Bwys a'r camau nesaf y gallai'r Cyngor eu cymryd.

Roedd yr aelodau yn dymuno gwybod am ymrwymiad Cyngor Caerdydd i ymgyrch Mae Fy Mhethau o Bwys. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch ac wedi prynu bagiau priodol i helpu plant a phobl ifanc i gludo eu heiddo. Mae gan y Cyngor berthynas waith agos â NYAS.

Cynghorwyd aelodau bod bagiau wedi'u dosbarthu i dimau gan gynnwys TDA a gwasanaeth y tu allan i oriau er mwyn cefnogi symudiadau brys.

Holodd yr Aelodau sut y sicrhawyd diogelwch eiddo plant a phobl ifanc yn ystod symudiadau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod eiddo o'r fath yn cael eu cludo ar

wahân i eitemau eraill lle bo hynny'n bosibl, a bod y rhan fwyaf yn mynd gyda'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw. Lle nad oedd yr olaf yn bosibl, roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch yr eitemau.

PENDERFYNWYD:

1. I nodi gwybodaeth Ymgyrch Fy Pethau o Bwys a ddarperir; ac
Argymell i'r Cabinet y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Ymgyrch.

18 : DIWEDDARIAD PORTH POBL IFANC

Gwahoddodd y Cadeirydd Laura Garvey-Cubbon, Rheolwr Gweithredol Tai a Chymunedau, i roi cyflwyniad ar Borth Pobl Ifanc, pryd y cyflwynodd wybodaeth am strwythur presennol y GPI, data ar ganlyniadau a gwybodaeth ynghylch y cynlluniau ehangu a datblygu ar gyfer y Porth.

Trafododd yr Aelodau y galw cynyddol am lety a dywedwyd wrthynt fod hyn oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys yr argyfwng tai, y lefel uchel uchaf erioed o rent mewn llety preifat yng Nghaerdydd, y nifer uwch o achosion o chwalu perthynas â rhieni yn sgil y pandemig, yr argyfwng costau byw a chynnydd mewn cam-drin domestig. Mae ymdrech yn cael ei rhoi ar waith gan gynnwys gweithio gyda rhieni a helpu gyda chyllid.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Plant ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches wedi'u cynnwys yn y ffigurau yn yr adroddiad.

Trafododd yr Aelodau faint o amser y disgwylid i blant a phobl ifanc orfod aros am lety, a dywedwyd wrthynt fod y Cyngor yn dilyn dull deuol i ostwng y rhestr aros.

Roedd yr Aelodau'n poeni am yr hyn ddigwyddodd i blant a phobl ifanc y gwrthodwyd llety iddynt, a dywedwyd wrthynt fod y Cyngor yn ceisio atal troi allan gyda llai na 10 yn digwydd dros y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn darparu ymateb ar unwaith gyda lleoliad neu lety arall a gynigir yr un diwrnod. Mewn achosion o roi'r gorau iddi, mae'r person ifanc yn cael cyfweliad mynediad yn ôl ac mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ceisio eu rhoi mewn llety.

Mynegodd yr aelodau bryderon am flocio gwelyau gan Plant Digwmni sy’n Ceisio Lloches gan holi a oedd hyn oherwydd diffyg llety sydd ar gael. Dywedodd swyddogion nad oedd modd symud Plant Digwmni sy’n Ceisio Lloches ymlaen i lety parhaol gan nad oedd ganddynt statws cyfreithiol.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau nad yw pobl ifanc yn cael eu symud i lety oedolion ar ôl iddynt gyrraedd trothwy oedran penodol. Maent yn aros yn eu llety presennol gan fod sefydlogrwydd yn cael ei ystyried yn bwysig. Maent yn symud i lety parhaol pan fyddant yn barod i wneud hynny.

PENDERFYNWYD:

Nodi gwybodaeth a ddarperir a datblygiad y Porth Pobl Ifanc.

19 : STRATEGAETH LLETY GWASANAETHAU PLANT

Gwahoddodd y Cadeirydd Deborah Driffield, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, i gyflwyno adroddiad ar y Strategaeth Llety, a oedd yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol, dadansoddiad o'r galw a manylion cynigion ar gyfer ffrydiau gwaith amrywiol, a chrynodeb o'r cynnydd hyd yma.

Talodd yr aelodau deyrnged i'r swyddogion oedd yn rhan o'r gwaith a mynegasant eu diolch i gynghorwyr mewn wardiau lle prynwyd eiddo.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am yr amserlen sy'n gysylltiedig â chael eiddo newydd yn barod i'w feddiannu. Dywedwyd wrthynt fod dau beth yn gysylltiedig: cael yr eiddo yn barod i'w meddiannu; a'u cofrestru gyda'r AGC. Gellid paratoi dau eiddo i'w meddiannu o fewn 6 mis, a 2 arall yn ddiweddarach; fodd bynnag, ni fyddent yn cael eu cofrestru gyda'r AGC yn y cyfnod hwnnw. Gellir defnyddio'r eiddo cyn cofrestru.

Roedd yr Aelodau'n dymuno gwybod a oedd unrhyw broblemau'n debygol o godi oherwydd y nifer uwch o blant mewn rhai eiddo, a cheisio gwybodaeth am ledaeniad daearyddol eiddo. Dywedwyd wrthynt fod y Cyngor yn bwriadu prynu eiddo llai, ond ni allent reoli maint yr eiddo yn nwylo cwmnïau preifat na sefydliadau dielw. Profiad y Cyngor oedd bod plant a phobl ifanc yn ymdopi orau wrth fyw ar eu pen eu hunain neu mewn eiddo llai. Bwriad y Cyngor yw cael eiddo wedi'i wasgaru ar draws y ddinas, ac i gofrestru plant a phobl ifanc yn eu hysgol leol.

Roedd aelodau'n poeni am y nifer uwch o fechgyn a phobl ifanc 16 ac 17 oed mewn lleoliadau ac roeddent yn dymuno gwybod a oeddent yn aros ar ôl 18. Dywedwyd wrthynt mai'r cynllun bob amser oedd gweithio gyda darparwyr preswyl i helpu pobl ifanc tuag at fyw'n annibynnol. Lle roedd angen sylweddol o hyd, trosglwyddwyd pobl ifanc ôl-18 oed i wasanaethau oedolion neu dai.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

20 : ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PCRHC - 2022-2023

Gwahoddodd y Cadeirydd Matthew Osbourne i gyflwyno adroddiad, a roddodd grynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf, a rhagolwg o'r flwyddyn i ddod.

Trafododd yr Aelodau pam nad oedd gwahoddiadau i Gynghorwyr i fynychu gwobrau Bright Sparks, a dywedwyd wrthynt mai'r her oedd sicrhau bod y gwobrau'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn cael blaenoriaeth.

Cafodd yr aelodau wybod y byddai'r adroddiad yn mynd i'r Cyngor ym mis Mehefin.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi Adroddiad Blynyddol drafft 2022/23
2. Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i gwblhau'r Adroddiad Blynyddol, gan roi sylw i sylwadau a ddarparwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc; a

Bod y Cadeirydd yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor llawn ym mis Mehefin 2023

## 21 : ASTUDIAETHAU ACHOS PLANT SY'N DERBYN GOFAL A'R RHAI SY'N GADAEL GOFAL

Gwahoddodd y Cadeirydd Matthew Osbourne i gyflwyno'r adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod sylw wedi ei roi i'w cais am gyflwyno enghreifftiau go iawn; fodd bynnag, roedd her yn y ffaith bod cofnodion Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ac felly penderfynwyd cyflwyno astudiaethau achos dienw er mwyn rhoi portread cywir o rai enghreifftiau nodweddiadol. Paratowyd nifer o astudiaethau achos o'r fath o ffynonellau amrywiol.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad a'r astudiaethau achos a ddarperir

## 22 : YMWELIADAU AELODAU

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau gan Gadeirydd ei hymweliad â'r Plant Ceiswyr Lloches ar eu pen eu hunain.

## 23 : Y FLAENRAGLEN WAITH

Gwahoddodd y Cadeirydd Matthew Osbourne i gyflwyno'r adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Gwella Lles Emosiynol ac Iechyd Corfforol yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Mae grŵp gweithredol wedi'i sefydlu i edrych ar y cynllun ar gyfer PCRhC a sut i'w weithredu. Bydd cyfle i Aelodau a Swyddogion ddod yn fentoriaid i Blant sy'n Derbyn Gofal. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Aelodau'n cael eu gwahodd i'r gwobrau Bright Sparks nesaf.

PENDERFYNWYD:

Nodi cynnwys y Flaenraglen Waith.

## 24 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

## 25 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm